

ADRODDIAD I'R PENNAETH CYNLLUNIO, DIOGELU'R CYHOEDD A GWASANAETH
CEFN GWLAD

ADOLYGU PROTOCOL HYFFORDDIANT AELODAU (CYNLLUNIO)

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Amlinellu i'r Aelodau newidiadau a awgrymwyd i'r Protocol Hyfforddiant Aelodau (Cynllunio). Os yw'r Pwyllgor Cynllunio yn cytuno, gweithredu'r fersiwn newydd o'r Protocol Hyfforddiant Aelodau (Cynllunio) ar unwaith.

2. CEFNDIR

Y Protocol Hyfforddiant Aelodau (Cynllunio) yw'r ddogfen sy'n nodi'r angen i Aelodau dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar y prosesau a gweithdrefnau a ddefnyddir o fewn y system Cynllunio a hefyd i hysbysu Aelodau am unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth. Mae'r Protocol yn amlinellu'r lefel o hyfforddiant sy'n angenrheidiol, beth sy'n cynnwys hyfforddiant a sut fydd hyfforddiant yn cael ei gofnodi.

Mae hyfforddiant yn sicrhau bod Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau cadarn ac amddiffynnol ar gynigion datblygu a materion eraill. Heb lefel ddigonol a phriodol o hyfforddiant, ni fydd Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio yn gallu pleidleisio ar faterion cynllunio mewn pwyllgor.

Mae'r newidiadau a awgrymwyd yn yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

Paragraff (F3)	Newid	Rheswm
2	Nifer o sesiynau hyfforddiant wedi gostwng o 4 i 2, ond gyda'r rhain yn cael eu harwain gan 'Swyddog'. Cyflwyno sesiynau hyfforddiant 'amgen' nad ydynt yn cael eu harwain gan Swyddog	Mae'r newid hwn yn cydnabod bod Aelodau yn cyfrannu'n aml at gyfarfodydd â gwerth hyfforddiant ond nid yn angenrheidiol yn cael eu harwain gan Swyddogion. Mae'n cael ei ystyried yn fuddiol i gydnabod gwerth y sesiynau hyfforddi 'amgen' hyn.
3	Nifer llai o sesiynau hyfforddi i gael eu trefnu mewn blynyddoedd Etholiad y Cyngor, ond mae'n mireinio beth ddylai'r sesiwn hyfforddi hwnnw fod	Mae'r newid hwn er mwyn pwysleisio'r angen i sicrhau bod unrhyw aelodau newydd yn cael eu hyfforddi mewn materion cynllunio mewn digon o amser er mwyn ffurfio Pwyllgor Cynllunio gyda nifer digonol o aelodau yn gymwys i bleidleisio.

4	Nifer o sesiynau sydd angen eu mynychu	Mae'r newid hwn er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r newidiadau i baragraff 3, ac mae'n ailgadarnhau bod y sesiwn hyfforddi cychwynol wedi'i anelu at gael aelodau i lefel
	y gall Aelodau etholedig o'r Pwyllgor Cynllunio bleidleisio.	a fyddai'n eu galluogi i bleidleisio'n hyderus mewn pwyllgor cynllunio.
5	Nifer o sesiynau sydd angen eu mynychu cyn y gall Aelodau a Ail-etholwyd a diffyg hyfforddiant bleidleisio.	Yn unol â'r sylw uchod.
	Paragraff 6 blaenorol wedi'i ddileu.	
6	Fersiwn newydd o baragraff 7 blaenorol. Ehangu er mwyn adlewyrchu beth mae hyfforddi aelodau yn ei gynnwys o ddydd i ddydd. Cyflwyno'r angen am dystiolaeth ysgrifenedig o ffynonellau amgen o hyfforddiant i gael ei gyflwyno.	Yn unol â sylwadau a wnaed ym mharagraff 1
7, 8 a 9	Paragraffau diwygiedig sy'n nodi sut y dylai hyfforddiant gael ei gofnodi a sut fydd Swyddogion yn cynorthwyo i sicrhau bod Aelodau wedi derbyn yr hyfforddiant gofynnol.	

Mae'r cynllun diwygiedig (Fersiwn 3) ynghlwm wrth yr adroddiad hwn i Aelodau (**Atodiad A**). Mae copi o'r cynllun presennol (Fersiwn 2) hefyd ynghlwm er mwyn cyfeirio ato (**Atodiad B**).

Ymgynghorwyd â'r Aelod Arweiniol Cynllunio a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio cyn gwneud y newidiadau hyn a awgrymwyd.

3. ARGYMHELLIAD

Bod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac yn mabwysiadu'r newidiadau a awgrymwyd i'r Protocol Hyfforddi Aelodau (Cynllunio).